

## Archwilydd Cyffredinol Cymru Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

[info@audit.wales](mailto:info@audit.wales) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

[www.audit.wales](http://www.audit.wales) / [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Mr Russell George AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Stryd Pierhead  
Caerdydd  
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT2834/caf

**Dyddiad Cyhoeddi:** 24 Ebrill 2018

*Annwl Russell*

### Ymchwiliad Pwyllgor – Cyflwr Ffyrdd yng Nghymru

Nodais fwriad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (ESS) i ymgymryd ag ymchwiliad i 'Gyflwr Ffyrdd yng Nghymru'. Bu staff Swyddfa Archwilio Cymru a minnau yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) yn y Pedwerydd Cynulliad fel rhan o'i ymchwiliad i 'Werth am Arian y Buddsoddiad mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd'. Gwn y bydd staff ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwnnw yn cynorthwyo gwaith Pwyllgor yr ESS a'u bod yn gyfarwydd iawn â'r materion a godwyd. Roeddent yn adeiladu ar fy adroddiad i fy hun ym mis Ionawr 2011 ar Brosiectau Trafnidiaeth Mawr.

Rhydd cwmpas ymchwiliad Pwyllgor yr ESS gyfle i ddilyn llawer o'r materion yr ymdriniai gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus â hwy. Er enghraifft, argymhellai'r PCC y dylai Llywodraeth Cymru ystyried, fel rhan o adolygiad allanol parhaus o asiantau'r cefnffyrdd, fanteision ac anfanteision sefydlu un asiant cefnffyrdd. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio i'r PCC bod adolygiad gan asiantaeth gefnffyrdd yn ystyried mai'r trefniant gorau oedd y model dau asiant (Gogledd a De Cymru). Fodd bynnag, roedd hyn yn amodol ar gyflawni £14 miliwn o arbedion cost posibl, oedd wedi eu nodi dros flynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18. Ym mis Rhagfyr 2017, cawsom ar ddeall fod yr arbedion a gyflawnwyd yn 2016-17 yn cael eu harchwilio'n annibynnol gan ymgynghorwyr allanol, gydag asiantaethau'r cefnffyrdd yn adrodd eu bod ar y ffordd i gyflawni'r lefel gyffredinol o arbedion a ddisgwyliid.

Nid wyf wedi ymgymryd ag unrhyw waith archwilio manwl fy hun yn dilyn y materion a godwyd yn fy adroddiad yn 2011 na'r ymchwiliad diweddarach gan y PCC. Fodd bynnag, rwyf wedi ystyried yn y blynyddoedd diwethaf faterion a godwyd mewn gohebiaeth ynghylch nifer o brosiectau ffyrdd. Fel y gwyddoch, mae esiamplau o'r fath yn cynnwys y costau cynyddol a'r amserlen estynedig ar gyfer cwblhau Adran 2 o'r A465 a sylwaf fod datganiad y Pwyllgor i'r wasg ynghylch yr ymchwiliad yn cyfeirio at y prosiect hwn. Yn yr un modd, soniai'r datganiad i'r wasg am Ffordd Osgoi yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Bûm yn ystyried gohebiaeth ynghylch datblygiad cynnar y prosiect hwnnw yn 2014.

Yn achos Adran 2 yr A465, mae Staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau rhai ymholiadau archwilio rhagarweiniol ar fy rhan er mwyn deall hanes y prosiect yn well a'r materion sydd wedi effeithio ar y costau a'r amserlen. Rhan o'r gwaith hwnnw oedd ymweliad diweddar â'r safle. Ar hyn o bryd, nid wyf wedi gwneud penderfyniad pendant ynghylch adrodd yn gyhoeddus am y mater hwn a'r ffurf y gallai hynny ei gymryd, a all fod angen gwaith archwilio pellach eto i edrych i mewn i hanes y prosiect yn fanylach. Mae'n fwriad gennyf hefyd gymryd barn y PCC i ystyriaeth. Fodd bynnag, rwyf yn cadw mewn cof fod adolygiad Llywodraeth Cymru o'r prosiect yn parhau a bod y Llywodraeth yn gweithio gyda'r contractwr (Costain) gan ddefnyddio mecanweithiau yng nghytundeb y prosiect i ddatrys unrhyw faterion sy'n ddadleuol.

Er hynny, nodaf ddiddordeb y Pwyllgor yn y dull o Gynnwys y Contractwr yn Gynnar (*Early Contractor Involvement*) (ECI). Er y bydd pob prosiect yn wahanol, bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru feddwl dros unrhyw wersi a ddysgwyd o ddefnyddio'r dull ECI gydag Adran 2 yr A465, o gofio'r problemau cost ac amserlen sydd wedi codi. Ar adeg fy adroddiad i yn 2011, roedd Llywodraeth Cymru wedi symud tuag at ECI fel y dull o ddewis ar gyfer contractau oedd yn werth mwy na £18 miliwn. Fodd bynnag, cymharol ychydig o enghreifftiau oedd yn bod ar y pryd o brosiectau a gwblhawyd yng Nghymru oedd wedi defnyddio'r dull hwn. Cymysg hefyd oedd y dystiolaeth o Loegr, lle roedd Adolygiad Asiantaeth Briffyrdd wedi dod i'r casgliad bod ECI wedi bod o gymorth i gyflawni prosiectau yn gynt, gyda llai o newidiadau i'r fanyleb yn ystod y gwaith adeiladu a safon uwch o saerniaeth. Ond roedd y dystiolaeth yn nhermau costau'r prosiect yn llai pendant.

Ers 2011, ac yn dilyn gwaith a wnaed mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, daeth adolygiad gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i'r casgliad bod yna fuddion mewn ymgysylltu'n fuan â'r gadwyn gyflenwi ac y gallai contractau is eu gwerth hefyd elwa o ymgysylltu'n gynnar â chontractwyr. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y PCC y câi'r canllawiau eu diwygio er mwyn pwysleisio y dylid ystyried ECI ar gyfer contractau adeiladu, waeth beth fo'u gwerth.

Yn olaf, mae'n fwriad gan y Pwyllgor ystyried y cyfleoedd a gynigir gan Fodel Cyd-fuddsoddi (*Mutual Investment Model*) (MIM). Mae'r PCC yn bwriadu derbyn tystiolaeth yn nes ymlaen yn nhymor yr haf ar raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a disgwyliaf y bydd yn archwilio cymhwyso MIM i Fand B y rhaglen. Er bod y meysydd polisi yn amlwg yn wahanol, mae'n debygol y bydd yna rai themâu cyffredin y bydd y ddau Bwyllgor yn archwilio iddynt oddeutu'r un amser. Efallai y byddai'n werth cael sgwrs bellach ynghylch llinellau ymholi posibl rhwng y timau clericio/ymchwilwyr priodol a Staff Swyddfa Archwilio Cymru, fydd yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyllid Cyhoeddus.

*In gŵi*



**HUW VAUGHAN THOMAS**  
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

cc: Mr Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus